pp Ionawr 16.qxp_Layout 1 05/01/2016 13:25 Page 1

Pris: 50c

Papur Pawb

Ionawr 2016 Rhif 415

Plant Ysgol Llangynfelyn yn cwrdd â Sion Corn ar y trên – adroddiad ar dudalen 5

tud 3 Pobl a Phethe
tud 4/5/8 a 9 Ysgolion
tud 7 Darganfod trysor
tud 11 Nadolig Bethel

Y Gair Olaf a Fydd Gyntaf

Yn draddodiadol mae'r golofn Y Gair Olaf yn ymddangos ar dudalennau cefn Papur Pawb ond am y tro cyntaf erioed, ac am resymau dilys, gosodir cyfraniad Tom Cosson i'r gyfres ar y dudalen flaen. Mae ei sylwadau yn haeddu ystyriaeth arbennig yn wyneb y penderfyniad gan y cyngor sir i gau Ysgol Llangynfelyn. Dyma felly 'Gair Olaf' Tom:

"Felly, mae'r ysgol yn mynd i gau a nid oes pwynt mynd dros y dadleuon o blaid ac yn erbyn yn y golofn hon. Ond, rhaid cyfaddef mai siom a syndod gefais o glywed dadleuon gwan a digynsail rhai o'n Cynghorwyr y byddai cau ysgolion bach yn gwella gordewdra ac yn cryfhau ysbryd cymunedol! Beth?!

Ymysg y teimladau personol, ers i'r Cyngor ddechrau ar y broses o gau'r ysgol, rwyf wedi cwestiynu beth mae hyn oll yn ei olygu i ddyfodol cymdeithas pentrefi Gogledd Ceredigion a beth allwn wneud am y sefyllfa. Derwenlas, Glandyfi, Eglwysfach, Ffwrnais, Tre'r Ddôl a nawr Taliesin – pob un yn gasgliad o dai ar ochr y ffordd yn hytrach na chymuned fyw?

Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o ffactorau wedi arwain at benderfyniad y Cyngor. Mae'n wir mai'r Adran Addysg sydd wedi gollwng y fwyell – ond onid oes bai arnom ni fel cymunedau, neu unigolion sydd yn byw yn y cymunedau hynny, pan mae cyfleusterau yn cau?

Fel gyda'r Gymraeg, os nad ydym i gyd yn defnyddio'r hyn sydd gennym, megis ein hysgolion lleol, ac yn annog eraill i wneud yr un peth, byddant yn diflannu. Am sawl rheswm dilys personol, mae nifer o drigolion pentrefi bach Ceredigion yn dewis pasio sawl ysgol bentref leol er mwyn derbyn addysg yn y dref. A yw hi'n bryd i ni drafod a herio hyn cyn ei bod hi'n mynd yn argyfwng?

Ond nid yw popeth yn ddu! Gallwn edrych at y dyfodol a chreu cymunedau mwy llewyrchus ein hunain trwy gydweithio a chyfrannu. Mae Siop Cynfelyn yn esiampl wych – ein harian ni sydd yn ei chynnal, ac mae bellach yn cyflogi nifer o bobl leol. Y mwyaf y cyfrannwn yn ein cymdeithasau a'n pentrefi, y mwyaf cryf a hyfyw fydd y cymdeithasau hynny yn y pen draw a ni fel trigolion fydd yn elwa o hynny."

Tom Cosson



Eleni yw'r tro cyntaf i ni fynd rownd yn gwisgo 'wellingtons' !

Dathlu'r Ŵyl yn Eglwysfach

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Sant Mihangel Eglwysfach cyn y Nadolig sef gwasanaeth Cristingl. Dyma blant Ysgol Llangynfelyn yn cario canhwyllau. Ceir mwy o'r hanes ar dudalen 5.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
Tynnu lluniau:	Cysylltir â golygyddion y mis	
	GOHEBYDDION LLEOL	
Tal-y-bont:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	832592
	Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyron

Annwyl ddarllenwyr,

Apêl am gyfraniadau i gofio hanes y genedl

Mae'n ganrif ers y Rhyfel Mawr ac mae gymaint o'n treftadaeth heddwch ac effaith y rhyfel ar Gymru eto i'w ddatgelu. Ond ni ddaw'r hanes yma i'r fei oni bai am ymdrechion unigolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol wrth wirfoddoli i ymchwilio a chyflwyno'r hanes. Yn aml ceir gwraidd hanes diddorol yn y papur bro neu gan y gymdeithas hanes lleol. Nawr dychmygwch werth yr ymdrech o gasglu'r holl ymchwil yma ynghyd fel cenedl, gan sicrhau ei fod ar gael yn ddigidol ar ffurf hanesion a delweddau (wedi eu sganio gyda chymorth Casgliad y Werin). Dyma'r ysgogiad tu ôl i brosiect Cymru dros Heddwch. Ond dim ond tair blynedd sydd gennym bellach i gasglu'r holl 'hanesion cudd' yma. Hanesion all fod yn gyfarwydd i chi efallai ond, heb gymorth gennych i chwilota ac i rannu, a allai fynd yn angof i'r cenedlaethau i ddod. Gall fod yn hanes effaith rhyfeloedd y ganrif ddiwethaf ar eich cymuned, hanes gwrthwynebwyr cydwybodol lleol, cyfraniad eich bro i ŵyl neu ymgyrch heddwch, ymdrechion mudiadau lleol, neu lenyddiaeth a chelf yn dehongli agweddau o anghydfod/heddwch.

I gynnwys eich ymchwil yn y darlun mawr cenedlaethol, a fyddech mor garedig a chysylltu â www.cymrudrosheddwch.org neu hannahuws@wcia.org.uk am daflen 'Hanesion Cudd/Hidden Histories', neu galwch 01248 672104 os am sgwrs cyn dechrau arni.

O gofio cyfraniad papurau bro fel ystorfa o hanes lleol yr ardal, mawr yw ein diolch rhagflaen,

Cofion
Hanna a Ffion
Cydlynwyr Cymunedol Cymru dros Heddwch

Cinio'r Henoed

Yn ôl eu harfer, daeth criw o henoed Tal-y-bont ynghyd ar 18 Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig gyda chinio blasus yn y Llew Gwyn.

Dyddiadur

IONAWR

10 **Bethel** Uno yn Nasareth
Nasareth 2 Bugail (C)
Rehoboth 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid

12 **Cymdeithas y Chwiorydd**
Rehoboth 'Atgofion J.R. Jones ar ffilm' (Ann Jenkins)

17 **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 10 John Hughes
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyrol Weddi

18 **Merched y Wawr**
Tal-y-bont a'r Cylch (Alun Elidyr)

21 **Sefydliad y Merched**
Tal-y-bont 2 Sut i ddefnyddio diffibrilwr (Glan Davies)

24 **Bethel** Y Gweinidog
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 10 Adrian Williams
Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Teuluol
Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn 'Gwrando ar y Dŵr: Ffynhonnau Bro Ddyfi o Daliesin i Fachynlleth' (Jane Lloyd Francis) 7.30 Llan Fach

29 **Clwb Nos Wener:** Sipsi Gallois 8.00 Y Llew Gwyn

30 **Pantomeim:** Neuadd Goffa 7.30

31 **Bethel** 10 Achlysurol
Rehoboth 10 Judith Morris
Eglwys Dewi Sant 10 Gwasanaeth Undebol yn Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Gwasanaeth Undebol (lleoliad i'w gadarnhau)

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

NOSON GWIS MORLAN
7.30, nos Fercher, 13 Ionawr
Cwis blynyddol ble mae timau o gapeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tîm? Ac os nad ydych chi mewn tîm, dewch draw i gefnogi!
DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST
12.30-2.00 & 4.30-6.00, dydd Mercher, 27 Ionawr
Cyfle i fyfyrio a chynnau cannwyll dros ddioddefwyr hil- laddiadau.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

CHWEFROR

2 **Sefydliad y Merched**
Taliesin Noson Indiaidd (Chris Gilbert)

7 **Bethel** 2 Y Gweinidog
Nasareth 10 Bugail
Rehoboth 2 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol Weddi

9 **Cymdeithas y Chwiorydd**
Rehoboth 'Geiriau' (Tegwyn Jones)

10 **Cyfarfod Blynyddol y Neuadd Goffa** 8 yng ngwaelod y Neuadd

Cwmni Garn Fach

yn cyflwyno Pantomeim:

Y Ffarmwr Bach a'r Celwydd Mawr

7.30, dydd Sadwrn, 30 Ionawr
Neuadd Goffa Tal-y-bont

TRE'R DDÔL

Cofiwch bod modd anfon newyddion ar gyfer Papur Pawb drwy ei adael mewn blwch sydd wedi'i osod yn Siop Cynfelyn. Mae yno hefyd lyfr lle y gall unrhyw un sy'n dymuno ysgrifennu pwt o newyddion a'i roi yn y blwch. Bydd golygyddion y mis yn casglu'r newyddion o'r blwch. Felly, wrth i chi ymweld â'r siop/caffi, cofiwch fanteisio ar y cyfle i nodi unrhyw eitem o newyddion a fydd o ddiddordeb i'n darllenwyr.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Fal a Gwyn, gyda Ceri yn dylunio.
Golygyddion mis Chwefror fydd Rhian a Catrin (rhian.evans@tiscali.co.uk) gyda Ceri yn dylunio.
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd **dydd Gwener 5 Chwefror**, a bydd y papur ar werth ar 12 Chwefror.

Pobl a Phethe

Cydymdeimlad
Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys ag Avril a Dai Bond, Brodawel, Taliesin a gweddill y teulu ar golli cefnder Avril, Ted Davies, Y Borth, ym mis Rhagfyr. Dyn hoffus iawn oedd Ted oedd yn gyfarwydd i rai ohonon ni oherwydd ei waith fel peintiwr/addurnwr gyda'i frawd Glyn. Bydd yn chwith iawn ar ei ôl o.

Symud tŷ
Pob dymuniad da i Dave a Jenny Williams sydd wedi symud o Oakridge, Taliesin, i fyw yn nes at eu merch a'i theulu yng Nghaersŵs. Byddwn wir yn gweld eisiau Dave a Jenny, yn arbennig adeg y Nadolig pan fyddai llawer ohonom yn mynd i brynu coeden 'Dolig ganddynt a rhoi'r byd yn ei le am flwyddyn arall. Gobeithio y byddan nhw'n hapus iawn yn eu cartref newydd.

Ymddeol o'r Coleg
Dymunir yn dda i Dr Mihangel Morgan, Porth Ceri, Tal-y-bont, ar ei ymddeoliad o Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, lle bu'n ddarlithydd am 22 o flynyddoedd. Ymunodd â staff yr Adran ar ôl bod yn fyfyriwr israddedig ynddi o dan gynllun y Radd Allanol. Aeth yn ei flaen wedyn i wneud ei ddoethuriaeth o dan gyfarwyddyd y diweddar Athro John Rowlands. Mae Mihangel, wrth gwrs, yn adnabyddus fel llenor creadigol a ysbrydolodd nifer o egin lenorion ymhlith ei fyfyrwyr. Yr oedd yn ddarlithydd ysbrydoledig a phoblogaidd, a bydd ei gyd-weithwyr yn gweld eisiau ei hiwmor a'i gwmni'n fawr iawn.

Ymwelwyr
Hyfryd oedd gweld pâr o Elyrch y Gogledd (Whooper Swans) yn ymlacio ar Lyn Pencefn (ger y ffordd i Bont-goch), ychydig o ddyddiau cyn y Nadolig. Roeddent wedi teithio'n bell o Wlad yr Iâ i aefau yng Nghymru yn ôl eu harfer blynyddol.

Llongyfarchiadau Dadcu!
Ganwyd mab bychan, Charlie William, i Lauren a'i chymar yn Bow Street. Mae Lauren yn ferch i Anthony Southgate, Tan y Dderwen, Tal-y-bont. Anrheg Nadolig arbennig i Dadcu!

Prawf gyrru
Da iawn ti Esther Ifan, Llys Alaw Tal-y-bont ar basio dy brawf gyrru. Pwyll piau hi!

Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion

Unwaith eto daeth aelodau Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion at ei gilydd i gynnal abrawf ŵyn hyrddod Gaeaf 2015/16 gyda 14 o ffermydd Gogledd Ceredigion yn rhan o'r abrawf. Anfonwyd 43 o ŵyn i fferm Tanrallt, Llangian, Abersoch am y gaeaf, fel yr arfer. Cyn mynd cafodd yr ŵyn eu beirniadu am yr oen hwrdd mwyaf addawol. Llongyfarchiadau i Enoc a Dewi Jenkins, Tyngraig am ddod yn fuddugol ac yn ennill Tarian Rhosgoch.

Trist oedd clywed am farwolaeth Gareth Evans, gynt o Llarcwm Bach, Bont Goch a fu'n ysgrifennydd ar y gymdeithas am 25 o flynyddoedd. Anfonwn ein cydymdeimlad fel cymdeithas at y teulu ar eu colled.

Canu Calennig

Hyfryd oedd clywed lleisiau Eli, Rhodri a Gethin Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont yn dymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' ar garreg y drws fore Calan a hithau'n fore mor oer. Fe gasglon nhw £21 ar gyfer yr elusen Nephcure. Da iawn chi.

Colli Gwen
Gyda thristwch mawr y daeth y newyddion am farwolaeth Gwen Hughes, Coetmor, Tal-y-bont yn Ysbyty Bronglais. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r plant Harri, Sian, Dafydd a Gwenno a'u teuluoedd. Bydd teyrnged i Gwen yn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Delyth Ifan, Llys Alaw Tal-y-bont a'r teulu ar farwolaeth tad Delyth a thadcu Elis ac Esther.

Ennill Hampyr
Un a gafodd anrheg Nadolig annisgwyl oedd Mrs Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont gan iddi ennill hampyr o fwyd Cymreig mewn cystadleuaeth. Gobeithio eich bod wedi mwynhau cynnyrch Hufenfa De Arfon Mrs Richards.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Elgan a Siwan Evans, Tŷ Nant, Bontgoch ar enedigaeth eu merch fach Elsi Iago. Mae'n siwr eich bod wedi cael Nadolig arbennig yn ei chwmni. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Cydymdeimlad
Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Gareth Evans, gynt o Lawrcwmbach a Sŵn-y-ffrwd, Bont-goch, ac yn diweddar o Gartref Tregerddan. Cyhoeddir teyrnged iddo yn rhifyn Chwefror o Bapur Pawb.

Arholiadau Cerdd
Llongyfarchiadau i ddau gerddor a basiodd eu harholidau piano a theori yn ddiweddar. Pasiodd Fabien Roberts, Llwyngwair, Tal-y-bont ei arholiad piano Gradd 1 gydag anrhydedd ac fe basiodd Betsan Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont arholiad theori Gradd 5. Da iawn chi.

Yn yr ysbyty
Blin gennym glywed am eich damwain Mrs Margaret Jones, Nantgaredig, Tal-y-bont a'ch bod wedi gorfod treulio cyfnod yn Ysbyty Bonglais.

Yno hefyd bu Vicky Ellis Jones, Pennaber, Tal-y-bont. Brysiwch i wella eich dwy.

Swydd newydd
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Delyth Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont ar ei swydd fel Cyfarwyddwr Cyhoeddwr Adnoddau Addysg, Prifysgol Aberystwyth.

pp lonawr 16.qxp_Layout 1 05/01/2016 13:25 Page 4

Priodasau

Eleri James, Cwmudw, Tal-y-bont ac Owen Jewell o Langwyryfon ar ddiwrnod eu priodas yn Eglwys Sant Pedr, Elerch ym mis Medi.



Priodwyd Jodie Burnham merch Richard Burnham, Salon Leri, Tal-y-bont, gyda Luke Bond yn eglwys Gadeiriol Lincoln ar y 23 Awst, 2015.

Cafwyd dathliad arbennig ar thema'r 1920au, a goreograffwyd gan Jodie, ac roedd pawb wedi mwynhau'n fawr iawn.

Treuliodd y pâr priod eu mis mel ar ynys Roegaidd Lesbos, a thra yno canfod eu hunain yn helpu'r ffoaduriaid druain oedd wedi glanio ar yr ynys.

Addysgwyd Jodie yn Ysgol Gynradd Talybont, Ysgol Bro-dyfi, a Phrifysgol Berks lle cyfarfu â Luke.

Mae Luke a Jodie yn byw yn Nhreganna Caerdydd ac mae'r ddau yn mwynhau eu swyddi proffesiynol yn y byd meddygol.

Ysgol Llangynfelyn

Moses yr asyn gyda'r plant yn y gwasanaeth Cristingl

Cinio Nadolig plant ysgol Llangynfelyn

Goleuo'r cristinglau

Plant ysgol Llangynfelyn yn paratoi i fynd ar drên Siôn Corn

Ysgol Llangynfelyn

Trip i'r sinema

Aeth y plant ar eu hymweliad Nadoligaidd blynyddol i sinema'r Commodore. Y ffilm eleni oedd 'The Grinch'. Mwynhaodd y plant hufen ia yn y sinema a gwylio'r ffilm ddoniol. Diolchwn yn fawr iawn i'r GRhA am dalu am y sinema a'r bws.

Cyngerdd

Aeth holl ddisgyblion yr ysgol i Ganolfan y Celfyddydau i wylio cyngerdd arbennig y Gwasanaeth Cerdd. Gwrandawon nhw ar ddarnau amrywiol gan 'Cerddorfa Ysgolion Ceredigion' a chôr Ieuenctid Ceredigion sef 'Corissimo'. Hyfryd iawn oedd gweld amryw o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn y gerddorfa a'r côr.

Cinio Nadolig a Pharti Nadolig

Cafwyd Cinio Nadolig blasus iawn eto eleni gyda gwledd wedi'i baratoi gan staff y gegin yn Ysgol Tal-y-bont. Diolchwn yn fawr iawn i Mrs Jen Jones, Mrs Myfanwy James a Natalie ac i Lisa am weini'r bwyd. Diolchwn hefyd i Mrs Linda Hicks am roi'r craceri i'r plant. Yn y prynhawn cafwyd ein Parti Nadolig gyda bwyd a gemau parti. I orffen diwrnod prysur galwodd Siôn Corn heibio gyda sach o anrhegion i'r plant.

Gwasanaeth Cristingl

Mae'n draddodiad bellach i blant yr ysgol gymryd rhan yng Ngwasanaeth Cristingl Eglwys San Mihangel, Eglwysfach. Roedd y plant wedi gwneud eu cristingl yn yr ysgol ac yn ystod y gwasanaeth goleuwyd y cristinglau yn yr eglwys. Uchafbwynt y gwasanaeth oedd ymweliad Moses yr asyn. Daeth Moses ag anrheg i bob un o'r plant ar ei gefn. Mwynhaodd y plant ei fwydo gyda moron a'i hoff fwyd – tangerîns! Diolchwn yn fawr iawn i swyddogion yr eglwys ac i'r Parchedig Stuart Bell am gynnal y gwasanaeth.

Rheilffordd Cwm Rheidol

Ar ddiwrnod olaf y tymor, trwy garedigrwydd y GRhA, aeth y plant ar Rheilffordd Cwm Rheidol ar Trên Siôn Corn. Cafwyd croeso cynnes iawn yn yr orsaf gyda diod a bisged i bawb cyn mynd ar y trên. Mwynhaodd y plant a'r staff eu taith yn fawr iawn yn enwedig pan ddaeth Siôn Corn a'i gorrach ar y trên! Siaradodd Siôn Corn gyda phob un o'r plant a chafodd pawb anrheg hyfryd ganddo cyn teithio nôl i'r orsaf yn Aberystwyth. Yn ogystal â'r ymweliad, gwisgodd y plant a'r staff eu siwmperi Nadolig i godi arian ar gyfer elusen Achub y Plant. Roedd yn ddiwedd arbennig iawn i orffen tymor prysur yn yr ysgol.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr iawn i Mrs Siwan Evans ac Elgan ar enedigaeth ei baban bach, Elsi Iago. Edrychwn yn fawr iawn at weld Elsi a Mrs Evans yn yr ysgol yn fuan.

Croeso

Croesawn Maia atom y tymor yma. Gobeithiwn y bydd hi'n hapus iawn yn Nosbarth y Cyfnod Sylfaen yn y Caban.

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance
Torri Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758
e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN
Pencefen ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Pobl a Phethe

Babi cyntaf 2016

Ddechrau Ionawr, ganed mab arall i Terri a Stuart Jones, brawd bach i Shae, ac ŵyr i Sean a Nikki Byrne, Tal-y-bont. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhaliwyd y gwasanaeth carolau blynyddol ar 6 Rhagfyr o dan arweiniad ein curad Y Parchg Lyn Lewis Dafis. Darllenwyd y llithoedd gan y wardeiniaid, Mr Emyr Davies a Dewi Evans. Yr organydd oedd Mrs Elisabeth James. Cyflwynwyd y casgliad o £54.00 i elusen MIND Aberystwyth.

Am 8.00 ar fore Dydd Nadolig dathlwyd y Cymun Bendigaid mewn oedfa draddodiadol dan arweiniad Y Parchg Lyn Lewis Dafis. Darllenwyd y llithoedd gan Richard Huws a Dewi Evans. Yr organydd oedd Mrs Elisabeth James.

Cymdeithas y Chwiorydd

Ein gŵr gwadd yn y cyfarfod yn festri Rehoboth ar 8 Rhagfyr oedd Elgan Philip Davies, Bow Street. Bu'n gweithio fel Llyfrgellydd Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth am nifer o flynyddoedd cyn ymddeol. Mae'n awdur toreithiog sydd wedi cyhoeddi nifer o nofelau i blant ac oedolion, ac yn 2011 cyhoeddodd lyfryn am hanes yr Hen Goleg. Yn ystod y prynhawn, soniodd am ddatblygiad tref Aberystwyth, ac yn arbennig am ddylanwad yr Hen Goleg, a agorwyd yn 1872, ar y datblygiad hwnnw. Trwy gyfrwng sleidiau, gwelwyd lluniau o'r dref cyn iddi ddatblygu yn gyrchfan i dwristiaid, a'r gwestai crand a adeiladwyd ar eu cyfer. Diddorol oedd clywed am y newidiadau a wnaed i adeilad yr Hen Goleg dros y blynyddoedd sydd wedi ei wneud yn adeilad mor hynod ac unigryw. Diolchwyd i Elgan am brynhawn difyr iawn, ac i ddilyn, cafwyd te, mins peis a chacen Nadolig wedi eu paratoi gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon, gyda help Myfanwy Rowlands.

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Glanyrafon
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Y LLEW GWYN
TAL-Y-BONT
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

pp Ionawr 16.qxp_Layout 1 05/01/2016 13:25 Page 6

Merched y Wawr

Bara Artisan oedd dan sylw yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r gangen pan croesawyd Arthur Dafis atom. Bu diddordeb gan Arthur mewn pobi bara yn y dull traddodiadol ers rai blynyddoedd ond yn ddiweddar datblygodd y diddordeb hwnnw ymhellach yn dilyn mynychu cwrs yn yr Alban ar bobi bara. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni wrth iddo son am ei brofiad yn yr Alban ac am ragoriaethau bara traddodiadol. Mae'n amlwg ei fod yn dipyn o arbenigwr a chafwyd cyfle i brofi'r amrywiaeth o fara hyfryd roedd wedi eu paratoi ymlaen llaw – yn eu plith bara surdoes, bara rhug a bara gyda chnau Ffrengig. Aeth ati hefyd i baratoi dwy dorth yn y fan a'r lle (gyda help Trish a Medi a fu wrthi yn brysur yn tylino!) ac erbyn diwedd y noson roedd aroglau hyfryd o fara yn crasu yn llenwi gwaelod y neuadd. Diolchwyd iddo gan Trish Huws a hi hefyd oedd yn gyfrifol am drefnu'r noson. Aeth pawb adre yn gytun nad oes dim yn debyg i fara 'go iawn'.

Eirian Evans

Raffl Nadolig Siop Spar Tal-y-bont

Tynnwyd y raffl ar 20 Rhagfyr gan Mrs K Richards. a dyma restr o'r enillwyr lleol: Hampyr – Elfyn Jones; Set o sgriwdreifers – Glenys Evans, Llwyn; Dyn Eira Siocled – Cath Williams, Maesyderi; Bocs siocled – Maureen Evans, Tre'r ddôl; Bocs o Seidr – Ruth Dennis, Maesyfelin; Brecwast i ddau – Cath Williams, Maesyderi; Potel o Prosecco – F Jenkins, Maesgwyn; Sgarff – Glenys Evans, Llwyn; £10 – Sian Jones, Ffridd y deri; Siocled 'Celebration' – Teulu Ty'r Helyg; Breichled – Kevin, Llwyn Haf; Losin Haribos – Carol Evans, Ty'r Helyg
RAFFL SGWAR: Bocs o siocled – K Richards, Bryn; Bocs o siocled – Hollie Williams; Bocs o fisgedi – Alison T; Cacen Nadolig – Julie Enoch

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:
- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau'r papur**
- **.... a rhagor**

Noddwyd y wefan hon gan: Anthony Motors Volkswagen

papurpawb.cymru

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Gyrfa Chwist Y Sioe

Ar nos Fercher 16 Rhagfyr cynhaliwyd Gyrfa Chwist y Sioe yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Roedd y neuadd yn orlawn gyda 29 o fyrddau ond yn ffodus roedd Glyn Davies yno i gadw trefn ar bawb.

Hanner amser cafwyd paned a lluniaeth a drefnwyd gan y gwragedd a gwerthwyd tocynnau'r raffl fach dan ofal Marion Evans.

Buddugwyr y noson oedd:
Sgôr uchaf (gŵydd): *Janet Evans*; Twrci: *Marion Evans, Iwan Morgan*; Cyw iâr: *Mari Lloyd; Sioned Huxtable*; Cyw iâ: *Peredur Morgan; Tom Alday*; Potel o sieri: *Barbara Jenkins; Steffan Huxtable*; Pwdin Nadolig: *Idwal Davies; Dai Jones*; *Huw Davies; Tommi Williams*; Bwrw allan (Hwyaden): *Elaine Williams; Ifan John Jones*; 'Miniature' isaf: *Myfanwy James; Iwan Jones*; Dyn/Dynes yn eistedd hiraf: *Jean Edwards, Neil Lewis*; Plentyn 16 oedd ac iau: *D Davies; Ieuan Davies.*

Y Llywyddion fu'n tynnu'r gwobrau'r ddwy raffl, a dyma'r prif enillwyr:
Penwythnos i bedwar yn Tŷ hen Henllys: *Eirian Bolton, Landysul*; £100: *Jen Davies, Tal-y-bont*; Footgolf i deulu o bedwar (Capel Bangor): *Maddy Lewis, Cwmerfyn*; 2 x 18 twll golf (Capel Bangor): *Ann Jones, Dole*; £50: *Sadie Jenkins, Tal-y-bont*; M.O.T. Garej Davmor: *Ann Jones, Dole*; Mynediad i deulu Animalarium Borth: *Ceri Vaughan, Cemmaes road*; Cwrs personol Canolfan Farchogaeth Rheidol: *Carolyn Lynn, Bontgoch*; Tocyn anrheg C C F Aberystwyth: *Billy Williams, Tŷ Du, Borth*; £25: *Dilwyn Evans, Tynant*; £20: *Meg Hughes, Llanidloes*; £10: *Peredur Morgan.*

Yn y raffl fach enillwyd y gwobrau gan bobl leol a gan rai a fynychodd y noson.
Cyn troi am adref, diolchodd ein cadeirydd am y gefnogaeth a gafwyd ar y noson.

Janet Jones

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol.

Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Y Clerc
Cyngor Cymuned Llangynfelyn
Blaenddôl, Tre'r-ddôl, Machynlleth, Powys SY20 8PL

erbyn **dydd Sadwrn, 30 Ionawr 2016** fan bellaf

pp Ionawr 16.qxp_Layout 1 05/01/2016 13:25 Page 7

Y ffordd ger Penpompren Mochno lle y darganfuwyd y trysor

Darganfod Trysor

Ar 10 Mehefin 1930 roedd labrwr o'r enw Owen Thomas Stephens, Fuchesgoch, Taliesin, yn rhofio pridd wrth weithio ar wella'r ffordd rhwng Llangynfelyn ac Ynyslas pan ddaeth o hyd i nifer o hen ddarnau o arian. Nid oedd ef, na'i gydweithwyr Edward Evans, Pentrebach a David John Wood, Llannerch, Tre'r ddôl,yn eu hystyried o unrhyw werth. Yn wir fe aeth Edward Evans ag ychydig o'r darnau adre a'u rhoi i'w blant i chwarae â hwy. Wrth chwarae collwyd un ohonynt.

Arian aur o'r un cyfnod

Adroddwyd hanes y darganfyddiad i syrfëwr y ffordd David Evans Isaac, Penygraig, ac ymhen yr hir a'r hwyr canfuwyd bod yr arian yn werthfawr iawn. Anfonodd gŵr o'r enw Howard Roberts, o'r Borth, un o'r darnau i'r Amgueddfa Brydeinig a derbyniodd ateb fod yr arian yn dyddio o gyfnod y brenin Harri IV. Gan eu bod yn werthfawr rhaid oedd eu trin fel hapdrysor (treasure trove).

Yn unol â'r drefn mewn achosion o'r fath, cynhaliwyd cwest yng ngorsaf yr heddlu Tal-y-bont ddechrau Awst1930, gyda Mr T Eyton Morgan yn gweithredu fel crwner. Aelodau'r rheithgor oedd Jenkin E Evans, Woodlands, y Parch Fred Jones, W P Trevena, Lewis Morris, Richard Griffiths a David Davies. Adroddwyd bod y darnau arian wedi'u darganfod mewn hollt yn y graig ger fferm Penpompren Mochno. Bathwyd yr arian, a adwaenid fel 'gold nobles', yng nghyfnod Rhisiart II (rhagflaenydd Harri IV), sef tua'r 1390au. Roedd 'gold nobles' fel y rhain wedi'u bathu yn wreiddiol i gofnodi buddugoliaeth Edward III ym mrwydr forwrol Sluys yn 1344. Y ddelwedd a geir arnynt yw un o frenin arfog yn sefyll ar flaen llong.

Penderfynodd y cwest mai hapdrysor oedd hwn ac y dylid ei ddiogelu yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd a dyma eu cartref hyd heddiw. Gallwch heddiw brynu un 'gold noble' tebyg o'r cyfnod am rhwng £6,000 a £10,000.

Mae'n debyg, yn ôl chwedl leol, bod ysbryd yn y cae lle y darganfuwyd y trysor ac y bu gweithred o drais yno amser maith yn ôl. Chawn ni fyth wybod y gwirionedd am y rheswm dros guddio'r trysor yn y graig ond gallwn ond ag ystyried y posibilrwydd ei fod yn gysylltiedig â gwrthryfel Owain Glyn Dŵr yn erbyn brenin Lloegr ddechrau'r 15fed ganrif. Onid yw'n bosibl i fonheddwr neu farchog cyfoethog o'r cyfnod guddio'r arian wedi iddo lanio ar aber yr afon Ddyfi gerllaw?

G J





Harri Mason yn derbyn cwpan gan Enoc Jenkins yn dilyn y gystadleuaeth saethu colomennod clai ar fferm Tynygraig

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch

Blwyddyn Newydd dda i aelodau a chyfeillion Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r Cylch!

Mae diwedd blwyddyn yn achos i ddathlu ac aeth yr aelodau i'r Llew Gwyn, yma yn Nhal-y-bont i fwynhau miri'r Parti'r Nadolig ar ddechrau mis Rhagfyr.

Efallai eich bod wedi clywed ambell dderyn yn canu carolau o gwmpas yr ardal er mwyn codi arian at elusennau lleol. Clywyd sawl Eos, Titw Tomos Las a hyd yn oed brain yn canu sawl carol ond llwyddwyd i godi swm sylweddol, sef £2021.31. Diolch yn fawr iawn i'r gymuned am roi mor hael ac am y croeso gwresog. Dewisodd y clwb gyfrannu'r arian a godwyd i ddwy elusen sef: Yr Ambiwlans Awyr Cymru a HAHAV (sydd yn wasanaeth gwirfoddol ar gyfer Hosbis yn y Cartref yng Ngogledd Ceredigion). Os am fwy o wybodaeth ewch i wefan HAHAV ar http://hahav.org.uk.

Gwnewch yn siŵr nad ydych yn croesi Harri Mason, Maes-y-coed, Ffwrnais, gan ei fod yn dipyn o 'hotshot' gyda dryll wrth saethu colomennod clai. Bu'n dathlu'n ddiweddar gan iddo guro saethwyr brwd yr ardal yng nghystadleuaeth colomennod clai Tal-y-bont ar fferm Tynygraig. Llongyfarchiadau mawr i ti Harri.

Mae Ionawr yn argoeli i fod yn fis prysur iawn yng nghalendr y clwb, felly peidiwch anghofio'r dyddiadau yma:

12/01/16 – cyfarfod agored i drafod Rali CFFI Ceredigion 2016 am 8yh yng ngwaelod y Neuadd Goffa
19/01/16 – Bingo blynyddol y clwb am 7.30yh yn y Neuadd Goffa
23/01/16 – Cinio Blynyddol y clwb, yng Ngwesty'r Marine

Os ydych eisiau archebu bwyd ar gyfer cinio blynyddol y clwb, cysylltwch â Rhydian Evans, Neuadd Fawr ar 07709 851213 neu evans.rhydian@yahoo.com - **mae croeso i bawb!**

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Ysgol Tal-y-bont

Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd ein cyngerdd Nadolig eleni yng Nghapel Bethel. Roedd hi'n hyfryd i weld yr adeilad mor llawn a chymaint o drigolion lleol a chyn ddisgyblion wedi dod i gefnogi'r ysgol unwaith eto. Hoffwn ddiolch i'r gweinidog y Parch Richard Lewis a swyddogion y capel am adael i ni ddefnyddio'r adeilad ac i Mr Ieuan Morgan, Mrs Myfanwy James a Phwyllgor y Neuadd am ganiatáu i ni gynnal y parti yno ar ôl y gwasanaeth hefyd.

Cyflwyniad unigryw am stori'r geni oedd y thema eleni gyda'r plant yn tynnu cracyrs a'r cynnwys yn rhoi symbolau gwahanol i ni ac yn ein harwain at y preseb ac at eni Iesu Grist. Roedd hi'n amlwg fod y gynulleidfa a'r plant wrth eu boddau ar y noson ac roedd y cyfan wedi ei wau yn gelfydd at ei gilydd yn llwyddiannus iawn.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i Miss Morris am gydlynu'r perfformiad, i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r plant mor drwyadl ac i'r rhieni hefyd am gynorthwyo gyda dysgu'r geiriau, y caneuon a'r gwisgoedd. Roedd sawl un o'r gynulleidfa wedi nodi fod y perfformiad yn un uchelgeisiol ac roeddem i gyd yn hynod falch o dderbyn canmoliaeth ar y noson ac ar wefannau cymdeithasol. Pob clod i'r plant am ddysgu eu darnau mor arbennig ac am eu perfformiadau cofiadwy.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am roi o'u hamser i baratoi ar gyfer y noson ac am weithio mor galed i sicrhau fod pawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gyfrannu at y raffl a llongyfarchiadau i bawb a enillodd gwobr, sef:
205 Ynyr Siencyn, 85 Beryl Davies, 190 Leah Rees,
497 Dave Williams, 218 Betsan Siencyn, 169 Lliwen Glwys,
491 Jenny Dingle, 156 Owain Bonsall, 711 Liz Roberts,
517 Libby Foulkes, 442 Sonia Hughes, 769 Jenny Davies,
587 Laura Jenkins, 553 Iori Jones, 14 Jenny Davies,
703 Dexter Farr, 221 Glesni Roberts

Credwn fod cynnal noson fel hon hyn yn atgyfnerthu ymdrechion yr ysgol i fod yn gynhwysol ac yn sicrhau ein bod yn rhan bwysig o'r gymuned leol yn ogystal â chael cyfle i gyfrannu i'r gymuned ehangach.

Sinema

Mae plant yr ysgol yn ffodus iawn o gael mynd i weld ffilm yn Sinema'r Commodore yn Aberystwyth yn flynyddol diolch i haelioni'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Eleni y ffilm oedd 'How The Grinch Stole Christmas' ac fe gafodd pawb amser da wrth chwerthin ar gampau'r cymeriadau doniol.

Cerddorfa Ysgolion Ceredigion a Chôr Corissimo

Un o uchafbwyntiau mawr yr adeg yma o'r flwyddyn yw cael cyfle i ymweld â Chanolfan y Celfyddydau i wrando ar Gerddorfa Ysgolion Ceredigion a Chôr Corissimo. Bob blwyddyn mae'r gyngerdd yn llwyddo i greu cynnwrf arbennig ond roedd eleni'n fwy cyffrous nag arfer rhwng y peiriant mwg ac ymweliad arbennig gan ryw gorila hoffus iawn. Llwyddwyd i greu naws arbennig gan y gerddorfa drwy chware nifer o ddarnau o ffilmiau adnabyddus ac roedd pawb ar eu traed yn dawnsio erbyn diwedd cyfraniad y côr. Ardderchog!

Cinio Nadolig a Ray Ceredigion

Mae traddodiad anrhydeddus o weini bwyd o'r safon uchaf yn Ysgol Tal-y-bont ac roedd cinio Nadolig eleni eto yn flasus tu hwnt. Diolch yn fawr i Mrs Jones, Mrs James, Natalie a Lisa am eu gwaith paratoi, nid yn unig ar gyfer y Nadolig ond ar hyd y flwyddyn.

Ar ôl cinio roedd hi'n braf iawn i groesawu Ray Ceredigion atom unwaith eto i gynnal sesiwn o ail-gylchu hen ddefnyddiau i greu gwrthrychau hollol newydd. Roedd hi'n hyfryd iawn i weld plant o bob oed yn helpu ei gilydd gan gynnwys clirio'r neuadd ar ddiwedd y prynhawn!

Siwmperi Nadolig

Mae gwisgo ein siwmperi Nadolig yn draddodiad yr adeg yma o'r flwyddyn. Cawsom dipyn o hwyl eleni eto yn cymharu gwahanol siwmperi y plant a'r staff! Roedd sawl un diddorol iawn yn eu plith a nifer o rai doniol iawn hefyd. Ond prif bwrpas eu gwisgo oedd codi arian i elusen Achub y Plant ac roedd hi'n braf gallu trosglwyddo dros £50.00 i goffrau'r elusen hon.

Staffio

Hoffwn ddiolch yn fawr i Mr Steffan Bonsall am ei waith fel darpar athro yn yr ysgol dros y misoedd diwethaf. Llwyddodd Mr Bonsall i ymgartrefu'n dda yma ac fe gyfrannodd yn helaeth i fywyd a gwaith yr ysgol yn ystod ei gyfnod o ymarfer dysgu. Pob hwyl i chi Mr Bonsall a dymuniadau gorau i chi ar gyfer y dyfodol.

Plant Ysgol Tal-y-bont yn llenwi sêt fawr Bethel i ganu'r garol olaf

Y brenhinoedd yn arwain y ffordd

Awgwstws Cesar a'i ddau filwr

Deuawd offerynol gan ddwy angel gerddorol

Y bugeiliaid allan ar y bryniau

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Cyngerdd yr ysgol feithrin yn y Neuadd Goffa

Cyngerdd a Noson Goffi

Cafwyd noson arbennig yng nghmwni'r Cylch Meithrin ar nos Lun, 14 Rhagfyr yn y Neuadd Goffa. Diddanwyd y gynulleidfa gref gyda'r plant bach yn perfformio stori'r geni a chanu detholiad a ganeuon Nadoligaidd. Diolch i Rebecca Williams am annerch, Rhian Nelmes am adrodd y stori ac i Ceri Morgan am gyfeilio. Gwnaeth y plant bach eu gwaith yn arbennig o dda ac yn llawn haeddu'r ddwy gymeradwyaeth! Diolch yn fawr iddynt! Estynnwn ddiolch hefyd i staff y Cylch sef Anti Lynwen, Anti Karren, Anti Gaynor ac Anti Ceri nid yn unig am baratoi'r plant ar gyfer y gyngerdd ond am eu gofal dros y plant yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Y tri brenin

Wedi'r gyngerdd, cafwyd cyfle i gael paned (gyda diolch i Shan Evans am baratoi'r holl gacennau i'r lluniaeth!), cacen a chlonc a mynd o amgylch y gwahanol stondinau a cheisio am y gwobrau dir-ri yn y raffl. Dymuna'r Staff a'r Pwyllgor ddiolch o galon i Janet Jones, Llwynglas am wneud y gacen Nadolig, i drigolion a busnesau'r pentref ac i nifer o rieni plant y Cylch am gyfrannu'n hael i'r raffl eleni eto. Codwyd swm sylweddol ar gyfer y Cylch Meithrin sy'n ein galluogi i gadw'r ffioedd yn isel, prynu adnoddau newydd i'r plant a helpu gyda chostau cynnal a chadw'r adeilad. Mae diolch hefyd yn mynd i'r Pwyllgor am yr holl waith paratoi a'r gwaith gweinyddol ac i'r rhieni a wnaeth helpu allan ar y noson gyda'r gwahanol ddyletswyddau.

Parti Nadolig

Ar fore Iau, 17 Rhagfyr cynhaliodd staff y Cylch barti Nadolig i'r plant yn y Neuadd Goffa. Cafwyd gemau, dawnsio a llond bol o fwyd blasus! Parti a hanner! I gloriannu'r bore daeth ymwelydd pwysig iawn i'w plith gyda'r dyn ei hun, Siôn Corn, yn galw heibio!

Hwyl fawr

Dymunwn ddweud 'Hwyl fawr a phob lwc' i bedwar bach sy'n ein gadael i fynychu Ysgol Gynradd Tal-y-bont. Dymuniadau gorau i Shae Jones, Tomas Melad-Woodling, Leah Cartwright a Swyn Tirion Jones sy'n cychwyn ar gyfnod newydd o'u gyrfa addysgiadol. Pob lwc i chi!

Diolch

Dymuna'r Staff a'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi'r Cylch yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall llawn hwyl a sbri!

Lowri a ffrind yn blasu Cwrw'r Gader yn y Ffair Nadolig

Ffair Nadolig Y Cletwr

Cyfle i fynd o fwrdd i fwrdd yn blasu gwahanol fwydydd a diodydd cyn cael cyfle i'w prynu a drefnwyd yn Siop Cynfelyn ar Ddydd Sadwrn, 12 Rhagfyr.

Roedd y siop yn orlawn o nwyddau a siopwyr a'r awyrgylch yn gynnes braf wrth i bob un flasu siocledi, cawsiau gwahanol, bisgedi a chacennau o gegin Siop Cynfelyn, mel lleol Mr Spencer, Tre Taliesin, Cwrw'r Gader a gwinoedd, a'r cyfan ar werth yn y siop trwy'r flwyddyn.

Roedd clychau til y siop yn canu'n ddi-baid wrth i'r siopwyr dalu am eu nwyddau cyn troi am adre.

Llongyfarchiadau i Siop Cynfelyn ar drefnu 'r noson o siopa Nadolig gan roi pwyslais ar gynnyrch Cymreig.

Dyma Siôn Corn ar ymweliad â Siop Cynfelyn gyda Chloe ac Edith yn mwynhau ei gwmni

Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Bethel

I nifer o ddarllenwyr Papur Pawb, ni fyddai'r Nadolig yn gyflawn heb wasanaeth Nadolig Ysgol Sul Bethel. Adlewyrchir hyn yn y nifer sy'n dod i'r gwasanaeth bob blwyddyn.

Gosodwyd naws hyfryd i'r noson gan dair telynores hynod o dalentog, Catrin, Esther a Medi a fu'n chwarae cadwyn o garolau hen a newydd wrth i bawb gyrraedd y capel.

Yna ar ddechrau'r gwasanaeth canwyd carol o waith y cyfansoddwr John Rutter gan gôr deulais o rieni, athrawon a ffrindiau'r Ysgol Sul.

Eleni, addasiad o waith yr awdur Michael Morpugo 'Ar Adenydd Angel' oedd y cynhyrchiad Nadolig. Yn y stori mae henwr yn adrodd ei hanes pan oedd yn fugail bach ar y bryniau uwch Bethlehem y noson y ganwyd y baban Iesu, wrth ei ŵyr, sy'n ei holi am y canfed tro am y stori hynod hon.

Wrth i'r henwr adrodd ei hanes gwelwyd angylion a bugeiliaid yn actio'r digwyddiadau yn y cefndir.

Cymerodd tua 45 o blant, pobl ifanc ac oedolion ran yn y gwasanaeth arbennig yma – yn gerddorion, cantorion, llefarwyr, actorion, dyn sain a dyn golau a mawr yw ein diolch i bob un ohonynt.

Ond er mor wych oedd cyfraniad pawb, heb amheuaeth, seren y noson oedd actor hynaf y cynhyrchiad, sef Mr Gwilym Jenkins a gymerodd ran yr henwr, a phetai Oscar yn cael ei rhoi am y perfformiad gorau, ef fuasai'n ei hennill!

Yn ystod y garol gynulleidfaol olaf gwnaethpwyd casgliad o £220 tuag at yr elusen HATCH sy'n paratoi pryd bwyd poeth a chwmni cyfeillgar pob dydd Sul i bobl di-gartref a rhai mewn llety dros dro yn Aberystwyth.

Becca, Efa, Glain, Eli, Ela a Martha, angylion stori'r Nadolig

Actorion a llefarwyr 'Ar Adenydd Angel'

Catrin, Esther a Medi, triawd o delynorion dawnus yn chwarae ar ddechrau'r gwasanaeth Nadolig

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON
JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

CHWARAEON

Eilyddion Tal-y-bont

Dyma Eilyddion Tal-y-bont cyn y gêm yn erbyn Eilyddion Aberdyfi ar Gae'r Odyn Galch ar Sadwrn cyntaf y flwyddyn. Llwyddodd Tal-y-bont i ennill gêm agos o 2-1 ac erbyn hyn mae'r tîm yn ail adran Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r cylch. Ar yr un diwrnod enillodd y tîm cyntaf o bedair gôl i dair bant yn Nhregaron gan aros felly ymhlith y ceffylau blaen yn yr Adran Gyntaf.

Bois Lleol ar y Brig

Gydag ail hanner y tymor rygbi wedi cyrraedd mae'n grêt medru adrodd fod Clwb Rygbi Aberystwyth ar frig Cynghrair Cenedlaethol 2 y Gorllewin. Mae'r Clwb hefyd yn mwynhau rhediad da yng nghystadleuaeth Plât SWALEC eleni. Beth sydd hyd yn oed yn well ydy nodi fod yna rai o ddynion ifanc â chysylltiadau cryf gydag ardal Papur Pawb, sef Steffan Nutting, Paul Stubbs a'r brodyr Rhys a Rhodri Richards ac maent wedi chwarae rhan flaenllaw iawn yn llwyddiant y clwb dros y tymhorau diweddar.

Mae Paul wedi bod yn un o hoelion wyth y tîm am dros ddegawd gan wasanaethu fel is-gapten a chapten yn ogystal ag ennill tlws chwaraewr y flwyddyn. Mae'n chwaraewr brwd a chaled a hyd yn hyn ef yw un o brif sgoriwr ceisiadau'r clwb y tymor yma sydd yn dipyn o beth i flaen asgellwr! Mae Steffan yn chwaraewr hyblyg iawn ac wedi chwarae mewn sawl safle ymysg y blaenwyr a chefnwyr sydd yn dipyn o gamp. Gwibwyr go iawn ydy Rhodri a Rhys a does dim yn well na gweld y brodyr yn cyd-chwarae a chyfuno cyn bod un ohonynt yn croesi'r gwyngalch am gais.

Mae Steffan, Rhodri a Rhys yn amlwg iawn yn y gymdeithas leol ac yn profi'n aml fod eu doniau'n ymestyn tu hwnt i'r cae rygbi drwy ymgymeryd â gweithgareddau, a chyfrannu at amryw lwyddiannau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont.

Mae chwaraewyr lleol wir yn cael hwb a'u hysgogi o weld pobl maen nhw'n 'nabod lawr ym Mhlascrug yn eu cefnogi – os i chi'n chwilio am rywbeth i wneud ar 'bnawn Sadwrn galwch lawr am gip!

Mae'r bechgyn i gyd yn gytûn fod chwarae rygbi wedi bod yn ffordd wych o wneud ffrindiau hir oes, teithio a chymdeithasu. Dalier ati fechgyn, ac ymlaen i'r dyrchafiad!

Gerwyn Jones

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (golygydd@papurpawb.com) neu ffoniwch ef ar 832560.

Golff

Eleni eto yn ystod yr wythnosau cyn y Nadolig, cynhaliwyd cystadlaethau'r *Turkey Trail* gan Glwb Golff Borth ac Ynyslas. Roedd golffwyr ardal Papur Pawb ymhlith y buddugwyr gyda Dennis Roberts yn ennill ar 8 Tachwedd a Stephen Evans ar 5 Rhagfyr. Daeth Owen Jenkins yn ail yn y gystadleuaeth ar 22 Tachwedd.